Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## Practis Deintyddol Llanidloes, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

## Dyddiad yr arolygiad: 21 Mehefin 2023

## Dyddiad cyhoeddi: 21 Medi 2023



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad

ISBN Digidol 978-1-83504-709-5
© Hawlfraint y Goron 2023

Daethom i'r casgliad bod y practis yn ymrwymedig i gefnogi ei gleifion a'u trin ag urddas a pharch. Roedd yr adborth a gafwyd gan gleifion yn cefnogi ein canfyddiadau bod y practis yn canolbwyntio ar y claf ac ar ansawdd profiad y claf.

Gwelsom fod staff gwybodus ac wedi'u hyfforddi'n briodol yn gweithio mewn amgylchedd glân sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Fodd bynnag, gwnaethom nodi meysydd i'w gwella mewn perthynas ag addasrwydd cyfarpar brys a chyfarpar dihalogi.

Yn gyffredinol, gwelsom fod systemau priodol ar waith er mwyn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Mae'r canfyddiadau hyn yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Llanidloes, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 21 Mehefin 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC, un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd Profiad y Claf

## Crynodeb Cyffredinol

- Daethom i'r casgliad bod y practis yn ymrwymedig i gefnogi ei gleifion a'u trin ag urddas a pharch. Gwelsom fod gwybodaeth ysgrifenedig ddwyieithog ar gael yn hawdd a bod system apwyntiadau effeithiol ar waith i gefnogi cleifion a staff. Roedd yr adborth a gafwyd gan gleifion yn cefnogi ein canfyddiadau bod y practis yn canolbwyntio ar y claf ac ar ansawdd profiad y claf.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Dylai'r practis ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael gan y bwrdd iechyd lleol i integreiddio'r Gymraeg ymhellach yn ei wasanaeth drwy ddefnyddio'r Cynnig Rhagweithiol.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gwasanaeth roeddent wedi'i gael yn dda iawn
- Roedd y broses apwyntiadau yn helpu i ddarparu gofal amserol i gleifion.

**Dywedodd y cleifion wrthym:**

*“Mae'r practis yn ardderchog ac mae pob aelod o'r staff rwyf wedi dod ar ei draws yn broffesiynol ac yn gyfeillgar iawn.”*

*“Gwasanaeth ardderchog – does dim byd wedi achosi pryder i mi erioed.”*

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Crynodeb Cyffredinol

- Gwelsom fod staff gwybodus ac wedi'u hyfforddi'n briodol yn gweithio mewn amgylchedd glân sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Gwnaethom nodi meysydd i'w gwella mewn perthynas ag addasrwydd cyfarpar brys a chyfarpar dihalogi.  Fodd bynnag, yn gyffredinol, gwelsom fod systemau priodol ar waith er mwyn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Rhaid i'r practis fonitro cynnwys a dyddiadau defnyddio'r cyfarpar brys yn agos er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'w defnyddio bob amser
- Rhaid i'r practis ystyried y trefniadau ar gyfer storio'r cyfarpar glanhau a sterileiddio
- Dylai'r practis wneud defnydd llawn o'r canllawiau a'r cymorth sydd ar gael iddo mewn perthynas ag archwilio clinigol, diogelu a gwella ansawdd.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Gwelsom fod y practis yn drefnus a bod lefelau glendid da drwyddo draw.
- Roedd y staff yn wybodus ac wedi'u hyfforddi'n briodol.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Crynodeb Cyffredinol

- Gwelsom fod prosesau a gweithdrefnau priodol ar waith i redeg y practis yn effeithiol. Dangosodd y practis ffocws da ar hyfforddi a datblygu ei weithlu. Serch hynny, roedd angen polisi mwy cadarn mewn perthynas â phrosesau recriwtio er mwyn bodloni'r gofynion rheoliadol.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Dylai'r practis ddatblygu a chynnal polisi recriwtio er mwyn sicrhau y caiff yr holl wiriadau cyn cyflogi eu cwblhau yn unol â'r gofynion a nodir yn y rheoliadau
- Dylai'r practis ddangos sut mae wedi gwrando ar adborth gan gleifion ac wedi gwneud newidiadau mewn ymateb i'r adborth hwnnw.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd y staff yn cwblhau cyrsiau hyfforddi rheolaidd y tu hwnt i'r gofynion gorfodol
- Roedd y practis yn mabwysiadu'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn ei waith ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant priodol ar y broses.

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, cânt eu nodi yn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gofynnwn i'r gwasanaeth gymryd camau brys. Caiff y pryderon hyn eu hamlinellu yn yr atodiadau ac maent yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle byddwn yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn ac i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, bydd AGIC yn gofyn i'r gwasanaeth gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i wasanaethau ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

